| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **25 Tachwedd 2013** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swyddog Marchnata, Twristiaeth a Digwyddiadau (Arfordirol) ac Arweinydd Tîm Cyfathrebu Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Adroddiad cynnydd ar Ymgyrch Atal Baw Cŵn** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i aelodau am y cynnydd hyd yma o ran yr Ymgyrch Atal Baw Cŵn yn dilyn lansiad meddal yr ymgyrch ar 18 Chwefror ac adroddiadau blaenorol a gyflwynwyd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau.

1.2 Mae baw cŵn yn ffynhonnell barhaus o gwynion ar gyfer y Cyngor. Mae'r mater wedi ei godi yn y cyfryngau lleol gyda galw rheolaidd ar y Cyngor i fynd i'r afael â'r mater. Mae baw cŵn hefyd wedi ei amlygu yn yr arolwg preswylwyr fel un o'r materion pwysicaf y mae angen mynd i'r afael ag ef. Mae wedi ei nodi bod baw cŵn hefyd yn fater o ran diogelwch cymunedol ac yn dreth ar adnoddau corfforaethol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn dilyn yr adroddiad a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2013, gofynnodd y Pwyllgor Archwilio am ddiweddariad ar yr ymgyrch hyd yma gan fod hwn yn ddull newydd a modern i ymgyrchoedd marchnata ar gyfer y Cyngor. Bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am gynnydd yr ymgyrch hyd yma a chynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ystod y misoedd nesaf.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor Archwilio:

3.1 yn ystyried yr adroddiad, sy'n tynnu sylw at y cynnydd ac effaith y dull o fynd i'r afael â mater baw cŵn yn y Sir; a

3.2 chynnig sylwadau ar effeithiolrwydd y strategaeth hyd yn hyn, hyd yr ymgyrch yn y dyfodol a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi cyflwyniad y strategaeth yn y tymor hir.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am sefyllfa bresennol yr ymgyrch ac yn gofyn am sylwadau ar ystyriaethau wrth symud ymlaen. Mae'n rhoi manylion y gweithgareddau marchnata sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd a chynlluniau parhaus. Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at unrhyw faterion hyd yn hyn ac argymhellion.

### 4.1 Gweithgareddau hyd yma:

Mae'r penderfyniad i ddefnyddio'r fath ddull marchnata sylweddol a chydlynol, o'i gymharu â'r hyn sydd wedi'i wneud o'r blaen, yn defnyddio cryfderau'r holl wasanaethau sy'n cymryd rhan i hyrwyddo a chyflawni sut mae'r Cyngor yn gwrando ac yn ymateb i'w gymunedau. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i fod yn fwy cadarn, cydlynol a chynhwysfawr i orfodi ac addysgu am faterion baw cŵn yn y Sir. Mae'r ymgyrch wedi galluogi'r Cyngor i gyfathrebu

sut y mae'n cyflawni blaenoriaethau corfforaethol allweddol sy'n darparu amgylchedd glân ar draws y Sir.

Diben strategol y dull newydd hwn yw cynnal ymgyrch aml-gyfrwng wedi'i brandio'n glir yn tynnu sylw at y canlynol:

- Deall pam mae hyn yn broblem yn Sir Ddinbych.
- Codi ymwybyddiaeth o'r materion baw cŵn yn Sir Ddinbych.
- Addysgu pobl am beryglon iechyd baw cŵn.
- Ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned leol a phartneriaid allweddol er mwyn cynyddu cyfrifoldeb cymdeithasol i gadw strydoedd yn lân a lleihau'r math hwn o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Lleihau nifer yr achosion o faw cŵn yn y sir.

Hyd yn hyn, mae'r gweithgareddau canlynol wedi digwydd:

- Cyfathrebu a deunydd marchnata
- 
- Cydweithredu ac ymgysylltu â'r gymuned

Gweler manylion pellach yn yr atodiadau sydd ynghlwm.

Dros y 6 mis diwethaf, mae'r tîm gorfodi wedi cynnal tua 500-600 o ymweliadau â'n trefi i 'batrolio' am gŵn yn baeddu. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn gwirio, cynghori perchnogion cŵn o ran eu cyfrifoldebau ac yn atal y perchnogion anghyfrifol rhag gadael i'w cŵn faeddu. Rydym yn awyddus i symud y ffocws ar y gweithgaredd hwn yn hytrach na rhoi rhybuddion cosb benodedig, sydd, fel y gwyddom, yn gyfyngedig iawn fel mesur o lwyddiant.

Mae'r tîm gorfodi hefyd wedi cynnal digwyddiad wythnos ar Stryd Fawr y Rhyl, lle'r oedd swyddogion y Deyrnas yn dosbarthu bagiau cŵn rhad ac am ddim, gan ddarparu cyngor a derbyn gwybodaeth gan y cyhoedd am fannau problemus yn eu cymuned, roedd yr adborth gan y gymuned yn ardderchog.

Mae'r tîm hefyd wedi cynnal rhai digwyddiadau arbennig mewn rhai mannau problemus, gan gynnwys Parêd y Dwyrain, y Rhyl a Cae Ddol, Rhuthun. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio camerâu teledu cylch caeedig symudol.

**Dadansoddiad o ystadegau o 18 Chwefror i 20 Hydref:** Mae'r ymgyrch wedi bod ar waith ers mis Chwefror ac wedi gweld nifer o ddatganiadau i'r wasg, sylwadau Facebook, gweithgareddau ac adborth mewn cefnogaeth lawn i'r gweithgareddau sy'n digwydd.

Mae effaith yr ymgyrch yn dal i gael ei monitro, ond hyd yn hyn rydym wedi gweld cyfanswm o:

- 48 o adroddiadau ar-lein wedi'u llenwi
- 86 o ymatebwyr i'r arolwg ar-lein 1af
- 473 o dudalennau gwe cysylltiedig â baw cŵn wedi'u gweld. 220 o achosion o weld tudalen gwe 'mae Sir Ddinbych yn dweud digon yw digon', 114 o achosion o weld tudalen gwe 'y Cyngor a'r heddlu yn ymuno i fynd i'r afael â baw cŵn' a 99 erthygl 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'.
- 198 (ac eithrio 85 o alwadau oherwydd yr eira) galwad 0800.
- 374 o ymholiadau ar y system Rheoli Cyswllt Cwsmer Chwefror - Hydref 13. O'i gymharu â 185 yn 2010, 192 yn 2011 a 287 yn 2012. Yn amlwg, mae hyn yn dangos bod yr ymgyrch yn cynyddu ymwybyddiaeth pobl o fater baw cŵn ac nad yw'n dderbyniol mwyach yn ein cymunedau. Gwnaethom ragweld cynnydd yn y nifer o ymholiadau sy'n gysylltiedig â baw cŵn o ganlyniad i'r ymgyrch farchnata a gorfodi proffil uchel ac mae'r ystadegau hyn yn cefnogi hyn. Bydd hyn yn parhau i gynyddu yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd y nosweithiau tywyll a pherchnogion yn meddwl na ellir eu gweld.

- Mae 24 o Rybuddion Cosb Benodedig wedi eu rhoi ar gyfer baw cŵn ers y 18 Chwefror. 1 yn Llangollen, 3 ym Mhrestatyn a 20 yn y Rhyl.
- Mae Gweithrediadau Gorfodi wedi eu gwneud ym Mharêd y Dwyrain, Marine Lake, Henllan, Pwll Brickfield, Bodelwyddan a Llandegla ac mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol. Defnyddir arwyddion ochr yn ochr â phresenoldeb swyddogion, dosbarthu llythyrau, aflonyddu ar berchnogion cŵn, dosbarthu bagiau gwastraff, rhoi cardiau post gyda rhifau i adrodd am ddigwyddiadau arnynt, a thocynnau wrth gwrs.
- Yn dilyn buddsoddiad sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae gan y Cyngor bellach bron 1,000 o finiau sbwriel ar draws y sir, ac maent i gyd yn derbyn gwastraff cŵn mewn bagiau. Mae hyn yn ychwanegol i'r biniau cŵn yr ydym wedi'u gosod mewn ardaloedd twristiaeth. Mae gan bob un o'r biniau newydd arwyddion yn dangos eu bod yn cymryd gwastraff cŵn mewn bagiau ac rydym yn y broses o roi arwyddion tebyg (sticeri) ar yr hen finiau. Mae 120 o finiau wedi'u prynu ers i'r ymgyrch ddechrau.
- Yn adroddiad strydoedd glân diweddaraf Cadwch Gymru'n Daclus dangosir bod baw cŵn ar lefel debyg fel a gofnodwyd yn 2007/08 ond mae wedi dangos ychydig o gynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf mewn gwirionedd.

- Sgôr Mynegai Glendid y System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol o hunan-arolygu ar gyfer 2012/13, fel yr adroddwyd i Cadwch Gymru'n Daclus ac i'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus oedd 93.5%. Y ffigur ar gyfer 2011/12 oedd 92.1% ac ar gyfer 2010/11 oedd 92.8%.
- Ar y cyfan mae ein dangosydd strydoedd glân yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 67.6, sef 70. 6. Gweler atodiad 6 am fwy o wybodaeth.

O'i gymharu â'r 5 prif fan problemus ym mis Chwefror, nid yw'r 5 prif fan problemus wedi newid ar wahân i Brestatyn yn symud o 4ydd i 2il ar y rhestr. Y 5 prif fan problemus yw'r Rhyl, Prestatyn, Dinbych, Rhuthun a Rhuddlan.

Mae'r ystadegau yn yr atodiadau yn dangos yn glir cynnydd mewn rhyngweithio â phreswyl yn cyd-daro â mwy o weithgareddau marchnata h.y. datganiadau i'r wasg, mynychu diwrnodau agored, hysbysebion ac yn y blaen.
Er enghraifft, pan fo cynnydd mewn gweithgarwch Rheoli Cyswllt Cwsmer, mae'n ymwneud â naill ai datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi, hysbyseb yn y papurau lleol neu bresenoldeb mewn digwyddiad / diwrnodau agored y Cyngor h.y. diwrnodau agored hamdden. Yn y digwyddiadau hyn, cafodd stondin ei godi i godi ymwybyddiaeth o'r ymgyrch a'r materion sy'n ymwneud â hi. Roedd y stondin yn cynnwys gêm ryngweithiol i ymgysylltu â phlant ifanc o ran codi baw cŵn yn ddiogel, a hefyd ymgysylltu ag oedolion o ran mannau problemus yn eu cymunedau. Dywedodd y plant hefyd wrth swyddogion am fannau problemus, yn enwedig ar hyd llwybrau cerdded i ysgolion.

Mae adborth gan drigolion yn gadarnhaol am yr ymgyrch yn gyffredinol. Roedd yr ychydig sylwadau negyddol yn ymwneud â'r ddelwedd sy'n cael ei defnyddio. Eglurwyd wrth drigolion bod y ddelwedd yn ysgogi sgwrs, cadarnhaol neu negyddol, am yr ymgyrch a'r broblem yn ein cymunedau, ac felly, yn codi ymwybyddiaeth nad yw'n dderbyniol caniatáu baw cŵn yn y Sir.

Mae siroedd cyfagos wedi bod yn cysylltu â'r Cyngor, gan gynnwys cynghorau cymuned yng Nghonwy, i ofyn am ddefnyddio delwedd yr ymgyrch gan ei bod yn fwy effeithiol na'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd. Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd wedi gofyn lle'r ydym yn cael ein harwyddion sydd ar bolion lamp er mwyn defnyddio'r un fformat ar gyfer eu hymgyrch hwy. Mae'r defnydd o arwyddion wedi bod yn llwyddiant mawr ac maent wedi eu defnyddio mewn llawer o lefydd i atgyfnerthu'r gwaith atal a lleihau yn enwedig yng Nghae Ddol, Rhuddlan ac ychydig o fannau eraill. Mae Cynghorwyr wedi gofyn amdanynt ar ôl sylweddoli y gellir eu gosod ar unwaith a'u bod yn uchel eu proffil. Mae'r baneri yn cael eu defnyddio hefyd.

Gweler manylion pellach yn yr atodiadau sydd ynghlwm.

**4.2 Gweithgareddau - Edrych Ymlaen:** Mae nifer o weithgareddau ategol i'r ymgyrch y mae angen eu cynllunio a'u gweithredu. Gweler manylion pellach yn yr atodiadau sydd ynghlwm. Mae’r rhain yn cynnwys:

**4.2.1** Rhaglen Addysg - mae hyn yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaethau Ieuenctid erbyn diwedd mis Tachwedd. Bydd hyn yn cynnwys ymweld ag ysgolion gydag enghreifftiau o'r deunydd hyrwyddo iddynt fynd adref gyda hwy, gemau rhyngweithiol ac yn y blaen. Byddant yn cyfleu negeseuon allweddol yr ymgyrch drwy ysgolion a chanolfannau ieuenctid.

**4.2.2** Ymgynghori ac Ymgysylltu â’r Gymuned a chyflwyno'r Strategaeth Atal Baw Cŵn - unwaith y bydd y strategaeth wedi ei hargraffu, bydd yn cael ei hanfon at yr holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned i’w dosbarthu yn eang yn eu hardaloedd.

**4.2.3** Deunydd Marchnata - awgrymwyd bod cardiau post a phosteri yn cael eu hailargraffu dros yr ychydig fisoedd nesaf i gefnogi'r cynnydd mewn gweithgarwch disgwyliedig yn ystod misoedd y gaeaf. Bydd y rhain yn cael eu dosbarthu trwy'r timau gorfodi.

**4.3 Ystyriaethau yn y Dyfodol:** Mae'r ymgyrch yn weithredol, ond mae angen ystyried hirhoedledd yr ymgyrch ac adnoddau pellach sydd ar gael i gefnogi’r broses o gyflawni hyn. Y prif gostau parhaus yw amnewid deunydd hyrwyddo a rhif 0800, y mae cyllideb wedi ei neilltuo ar eu cyfer yn y gyllideb wreiddiol. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i amser swyddogion a rhif 0800 a pha mor hir mae hyn yn parhau i fod ar gael.

## 5. Gwybodaeth Gefndir Ddefnyddiol:

Mae’n bosibl y bydd aelodau pwyllgor yn dymuno cyfeirio at yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio: Mehefin 2012, Ebrill 2013 a Nodyn Briffio Chwarterol ar batrolau troseddau amgylcheddol a chyflwyno Rhybuddion Cosb Benodedig

## 6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd ystyried y materion a amlygwyd yn yr adroddiad yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaeth gorfforaethol mewn ffordd fodern, sy'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy er budd y gymuned leol, a heb gael effaith niweidiol ar drigolion y Sir.

## 7. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae manylion llawn am gost yr ymgyrch i’w gweld yn yr atodiadau sydd ynghlwm. At ei gilydd, mae Marchnata’r ymgyrch ar gyfer dylunio ac argraffu deunyddiau ac ati wedi costio £8,599.52.

O'r gyllideb sy'n weddill i farchnata a chyfathrebu, gwnaed argymhellion i barhau i gefnogi'r ymgyrch gyda deunyddiau pellach.

Ar ôl i’r gyllideb gael ei gwario ar gyfer marchnata a chyfathrebu, byddai cynllunio a diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd yn gweld effaith costau parhaus deunyddiau yn cael eu cynhyrchu ac amser swyddogion wrth reoli'r ymgyrch, gorfodi a glanhau mannau problemus.

## 8. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae’r adroddiad hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y Cyngor hyd yma o ran yr ymgyrch atal baw cŵn, ac nid yw’r penderfyniad i gymeradwyo’r adroddiad yn effeithio ar nodweddion a ddiogelir.

## 9. Pa ymgynghori sydd wedi digwydd?

Mae'r adroddiad hwn wedi ei roi at ei gilydd mewn ymgynghoriad llawn â Phennaeth Gwasanaeth (Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden), Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a Phennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol), ymgynghorwyd ag aelodau, ynghyd ag Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus.

Mae ymgynghori wedi digwydd gyda Grwpiau Ardal yr Aelodau gan y Rheolwr Cynnwys y Gymuned, gan drafod y Strategaeth Atal Baw Cŵn. Mae adborth wedi'i dderbyn, a bydd taflen sy'n gyfeillgar i'r cyhoedd yn cael ei chynhyrchu a bydd ar gael mewn lleoliadau allweddol o amgylch y Sir i atgyfnerthu'r ymgyrch erbyn diwedd mis Tachwedd.

## 10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Risgiau posibl i lwyddiant a chynaliadwyedd yr ymgyrch yw cefnogaeth y gymuned leol. Mae angen ei gwneud yn glir bod angen i gymunedau rannu'r cyfrifoldeb gyda'r cyngor i gyflawni ein hamcanion. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gael pobl leol a chynghorau dinas, tref a chymuned i gefnogi'r ymgyrch, i fod yn llygaid a chlustiau i ni yn y gymuned ac adrodd problemau yn gywir gyda manylion perthnasol troseddwyr. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy ymgynghori effeithiol parhaus gyda Grwpiau Ardal yr Aelodau, Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned ac yn y blaen.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Erthygl 6.3 o Gyfansoddiad y Cyngor

## 12. Dogfennau Ategol

- Atodiad 1 a 2 - Gweithgareddau Cyfathrebu a Marchnata, gan gynnwys cydweithio ac ymgysylltu â'r gymuned
- Atodiad 3 - Ystadegau
- Atodiad 4 - Adroddiad Ariannol ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu a marchnata
- Atodiad 5 - Briffio Chwarterol ar batrolau troseddau amgylcheddol a rhoi Rhybuddion Cosb Benodedig (1 Ebrill - 30 Medi 2013)
- Atodiad 6 - Adroddiad LEAMS Cadwch Gymru'n Daclus
- Atodiad 7 – Ystadegau Strydoedd Glan

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Marchnata Twristiaeth a Digwyddiadau (Arfordirol)
Ffôn: 01824 706215